

# Annog Plant i Ddarllen

## Pam mae angen imi helpu fy mhlentyn gyda darllen?

Un o'r ffyrdd gorau y gallwch helpu'ch plentyn i wneud yn dda yn Ysgol Dyffryn Nantlle yw trwy ei annog i fwynhau darllen er mwyn pleser. Mae plant sy'n mwynhau darllen yn gwneud yn well yn yr ysgol ac mae'r rhieni'n chwarae rôl allweddol wrth helpu eu plant i ddatblygu'r cariad hwn at ddarllen.



## Canfyddiadau Ymchwil

Canfu ymchwil ddiweddar i sgiliau darllen pobl 15 oed ar draws y byd fod plant a chanddynt fwy o ddiddordeb mewn darllen yn gwneud yn well yn yr ysgol na'r rhai nad ydynt yn darllen er mwyn pleser. Canfu'r astudiaeth hefyd fod rhieni sy'n siarad â'u plant am lyfrau, rhaglenni teledu a ffilmiau'n helpu cynnal diddordeb eu plentyn mewn darllen. Mae cael llyfrau, papurau newydd a chylchgronau o gwmpas y cartref yn gwneud gwahaniaeth hefyd i faint o ddiddordeb sydd gan blant mewn darllen.

## Paratoi ar gyfer darllen yn Ysgol Dyffryn Nantlle

Efallai bod eich plentyn yn edrych ymlaen at heriau'r ysgol 'fawr' newydd neu efallai ei fod yn poeni am y gwaith. Gallwch helpu cefnogi'ch plentyn trwy ei annog i ddarllen amrywiaeth o wahanol fathau o bethau.

Syniadau Syth:


- Helpwch eich plentyn i ddod o hyd i lyfrau y bydd yn ei fwynhau trwy ymuno â'r llyfrgell gyhoeddus.
- Darllenwch gyda'ch gilydd. Ceisiwch ddewis deunydd am ddiddordebau neu hobiau a rannwch fel eich tîm pêl-droed neu fan rydych chi wedi'i ymweld gyda'ch gilydd. Bydd deg munud ychydig weithiau'r wythnos yn gwneud gwahaniaeth.
- Siaradwch am ba lyfrau neu gylchgronau y gallai'ch plentyn eu darllen er mwyn dysgu mwy am y pynciau y bydd yn eu gwneud yn yr ysgol uwchradd.
- Prynwch lyfr, tocyn llyfr neu gylchgrawn yn anrheg neu'n wobr.

## Cefnogi Darllen yng Nghyfnod Allweddol 3

Ym mlynnyddoedd 7 - 9, bydd eich plentyn yn astudio mwy o bynciau a bydd yn gweithio gyda gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen yn ei holl bynciau. Bydd eich plentyn yn darllen ystod o destunau o erthyglau a hysbysebion papur newydd i esboniadau gwyddonol a chyfarwyddiadau. Mae rhieni sy'n cefnogi addysg eu plant yn gwneud gwir wahaniaeth i ba mor dda mae eu plentyn yn ei wneud.

Syniadau

- Ceisiwch fras ddarllen a sganio gyda'ch gilydd. Bras ddarllen yw pan fyddwch yn darllen trwy rywbeth yn gyflym i gael gwybod beth yw'r prif syniad; sganio yw darllen yn gyflym trwy rywbeth i gael darn penodol o wybodaeth fel dyddiad, enw neu amser. Trowch hyn yn gystadleuaeth rhyngoch chi a'ch plant i weld pwy all ddod o hyd i'r wybodaeth gyflymaf.
- Helpwch eich plentyn i ateb beth mae gair anghyfarwydd yn ei olygu trwy ddweud wrtho am ddarllen gweddill y frawddeg a chwilio am gliwiau.
- Helpwch trwy brofi'ch plentyn pan fydd ganddo sillafiadau i'w dysgu a thrwy ei annog i chwilio am ystyron geiriau nad ydyw'n eu gwybod mewn geiriadur.



- Gwrandewch ar eich plentyn yn darllen, darllenwch i'ch plentyn, darllenwch rywbeth gyda'ch gilydd. Nid ydym byth yn rhy hen i fwynhau rhannu darllen.

#### Cefnogi Darllen yng Nghyfnod Allweddol 4

Yn ystod TGAU, bydd rhaid i'ch plentyn ddarllen testunau anos a pharatoi ar gyfer arholiadau ac asesiadau dan reolaeth. Un peth pwysig y bydd rhaid i'ch plentyn ei wneud i fod yn llwyddiannus mewn TGAU yw darllen a deall cwestiynau'r arholiad yn ofalus. Yn ystod yr oedran hwn, gall darllen er mwyn pleser gael ei wasgu allan wrth i'r swm o waith cartref gynyddu. Gallwch wneud gwahaniaeth trwy helpu'ch plentyn i reoli a threfnu ei amser a'i annog i orffwys, ymlacio a darllen - yn ogystal â gwneud gwaith cartref!



#### Syniadau

- Torrwch erthyglau papur newydd allan am bynciau y mae'ch plentyn yn eu hastudio er mwyn eu darllen.
- Os ydy'ch plentyn yn cael problemau'n deall rhywbeth mewn pwnc penodol, darllenwch drwy'r gwaith gydag ef.
- Tecstiwch neu anfonwch e-bost at eich plentyn gyda rhai awgrymiadau am lyfrau y bydd yn eu hoffi o bosibl.
- Gosodwch eich tudalen hafan ar y Rhyngwrwd i safle y gallai fod gan eich plentyn ddiddordeb ynddo; cofiwch mai pob darllen yn dda.
- Chwiliwch am eiriau technegol nad ydych chi na'ch plentyn yn eu deall o'u gwaith mewn geiriadur neu ar y Rhyngwrwd a gwnewch hwnnw'n air y dydd. Pan fydd gennych restr o eiriau newydd, gallech brofi'ch plentyn arnynt.
- Cofiwch siarad gyda'ch plentyn am ddarllen.
- Bydd sgwrs pum munud cyflym am beth mae'n ei ddarllen a pham mae'n dda yn gallu gwneud i'ch plentyn deimlo'n werthfawr a bydd yn ei atgoffa fod darllen yn bwysig.

#### Methu Darllen, Gwrthod Darllen. Beth allaf ei wneud?

- Siaradwch â'ch plentyn i weld beth mae'n ei hoffi neu beidio am ddarllen. Anogwch eich plentyn i ddarllen rhywbeth sydd ddiddordeb iddo - mae nofelau graffig, comigau, cylchgronau, papurau newydd a llyfrau i gyd yn annog darllen. Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn gemau cyfrifiadurol, ceir llawer o lyfrau ar sut i chwarae'r gemau a 'ffyrdd twyllo' y bydd yn gallu eu defnyddio.
- Peidiwch â gorfodi'ch plentyn i ddarllen rhywbeth nad oes ganddo ddiddordeb ynddo, hyd yn oed os ydych chi'n poeni am ei ddarllen. Ni ddylai darllen fynd yn gosb nac yn orchwyl.
- Gosodwch eich tudalen hafan i wefan y gallai'ch plentyn ei mwynhau. Er enghraifft, gallech roi cynnig ar safle rygbi neu hafan hoff raglen deledu.
- Daliwch eich plentyn yn darllen! Mae pob un ohonom yn darllen yn amlach nag y sylweddolwn mewn bywyd pob dydd. Dangoswch i'ch plentyn pan fydd yn defnyddio'i sgiliau darllen trwy ddarllen cyfarwyddiadau, defnyddio'r Rhyngwrwd neu edrych ar gylchgrawn teledu!

#### Dal i Boeni?

Os ydych chi'n poeni bod eich plentyn yn cael trafferth gyda darllen, mae'n syniad da cysylltu â ni yn yr ysgol i siarad gydag athro/athrawes. Mae nifer o raglenni darllen a allai helpu'ch plentyn i wella. Cofiwch os bydd darllen eich plentyn yn gwella, bydd ei waith yn ei bynciau eraill yn gwella hefyd, felly mae croeso ichi gysylltu â ni os oes gennych bryderon.